**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (166)**
**Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

...........................

**Eitem 1 -** Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Eitem 3** – Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Camau i Ffrwyno Goryfed

**Eitem 4** – Datganiad gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth: Dyfodol y ganolfan ragoriaeth awyrofod

**Eitem 5 -** Dadl ar Bolisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Eitem 6 –** Y Ddadl Fer - NDM2666 Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth): Gosod Gatiau - Lleihau Budreddi a Throseddu yng Nghaerdydd a Phenarth?

.............................

**Eitem 1 - Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

.............................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

..............................

**Eitem 3 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio : Camau i Ffrwyno Goryfed**

..............................

**Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth: Dyfodol y ganolfan ragoriaeth awyrofod**

..............................

**Eitem 5 - Dadl ar Bolisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**NDM2665 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu ac yn cefnogi'r agwedd strategol a gymerwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn rhoi Cymru ar flaen y gad o ran cynhyrchu ynni glân a chyfle economaidd, fel yr amlinellwyd yn y Trywydd Ynni.

*Ceir copïau o 'Ynni Cymru: Trywydd ar gyfer Dyfodol Ynni Glân, Isel mewn Carbon a Mwy Cystadleuol yng Nghymru' trwy'r ddolen isod:*
*Yn Saesneg: http://www.wales.gov.uk/subitradeindustry/content/consultations/innovation-e.pdf*
*Yn Gymraeg: http://www.cymru.gov.uk/subitradeindustry/content/consultations/ewrm-map-w.pdf*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1, 9, 10, 11, 12 + 13)**
**(2, 3, 4 + 5)**
**(6, 7 + 8)**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a rhoi'r pwyntiau a ganlyn yn lle hynny:

1. Yn cydnabod rôl polisi ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru yn lliniaru canlyniadau newid yn yr hinsawdd; a

2. Yn nodi gyda phryder fod y diffyg pwerau cyfredol yn cyfyngu ar gwmpas a datblygiad polisi ynni yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gryfhau'u sylwadau i lywodraeth y DU ar gyfer datganoli'r holl bwerau perthnasol ar y mater hwn.

**2. David Melding (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r pryderon sydd gan sefydliadau busnes blaenllaw gyda golwg ar Drywydd Ynni Cymru.

**3. David Melding (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y bydd y trywydd ynni, os caiff ei roi ar waith ar ei ffurf gyfredol, yn arwain at gynnydd net mewn gollyngiadau nwyon ty gwydr.

**4. David Melding (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes unrhyw gyfeiriad at bwer niwclear er gwaetha'r ffaith fod ynni niwclear yn darparu 30% o gyflenwad ynni Cymru.

**5. David Melding (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i arwain dadl wybodus ynghylch a ddylai cynhyrchu ynni niwclear barhau i chwarae rhan yn y gwaith o gyflenwi anghenion ynni Cymru.

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu ym mhwysigrwydd democratiaeth leol er mwyn cyflawni'r targed o 4 TWh (terawatt yr awr).

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i wella diogelwch ynni trwy roi cefnogaeth i gynhyrchu systemau ynni adnewyddadwy lleol ar wahân i systemau gwynt ar y tir.

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i gynnal ymgyrch arbed ynni benodol, uchel ei phroffil yng Nghymru.

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynigion ar gyfer rhaglen fanwl o fesurau effeithlonrwydd ac arbed ynni.

**10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am drosglwyddo'r cyfrifoldeb sydd gan San Steffan ar hyn o bryd dros bolisi ynni gyda golwg ar Gymru i'r Cynulliad a'i fod yn y cyfamser yn pwyso ar lywodraeth y DU i beidio â chymryd unrhyw benderfyniadau ynghylch safleoedd pwer niwclear newydd yng Nghymru.

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu mwy o gefnogaeth i waith ymchwil a datblygu a

leolir yng Nghymru sy’n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy amgen a thechnolegau effeithlonrwydd ynni.

**12. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Nodyn Cyngor Technegol arfaethedig ar gynllunio glo i wneud rhagdybiaeth yn erbyn cloddio glo brig mewn egwyddor, ond os yw'r mwyafrif o’r bobl leol o blaid dylid cael clustogfa 500m rhwng ffin y safle ac aneddiadau preswyl, ysgolion ac ysbytai.

**13. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i greu rhaglen gymhorthdal wedi’i thargedu ar gyfer tyfu cnydau biomas penodol yng Nghymru.

**.............................**

## Eitem 6 - Y Ddadl Fer - NDM2666 Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth): Gosod Gatiau - Lleihau Budreddi a Throseddu yng Nghaerdydd a Phenarth?

**.............................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 15 Tachwedd 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**